PWYLLGOR CYNLLUNIO

MAWRTH 2020

ADRODDIAD GWYBODAETH GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

Y DIWEDDARAF AR APELIADAU CYNLLUNIO

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r eitem hon yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am benderfyniadau apeliadau cynllunio diweddar a gafwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar achosion yn y Sir. Mae'n cwmpasu cyfnod o 6 mis o fis Medi 2019 hyd yma.

2. CYNNWYS

2.1 Mae Atodiad A ynghlwm yn cynnwys tabl fel arweiniad sydyn sy'n rhestru'r penderfyniadau apêl a gafwyd yn y cyfnod hwn, gyda gwybodaeth sylfaenol gan gynnwys y canlyniad, math o apêl, a chyfraniad gan y Pwyllgor Cynllunio a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

2.2 Mae **Atodiad B** yn rhoi crynodeb / adolygiad o'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i bob achos.

2.3 Os yw'r Aelodau yn dymuno darllen fersiynau llawn o benderfyniadau'r Arolygydd Cynllunio ar yr apeliadau, gellir gweld y rhain ar wefan Sir Ddinbych (Cynllunio; *Dod o hyd i gais cynllunio; (rhowch rif y cais); Chwilio; Dogfennau; Penderfyniad Apêl.)*

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

EMLYN JONES PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD